

Coetiroedd i Gymru

Y Cynulliad Cenedlaethol i Gymru
Strategaeth am Coed a Choetir

Woodlands for Wales

The National Assembly for Wales
Strategy for Trees and Woodlands



Cynnwys

| | | | |
|---|-----------|--|-----------|
| Rhagair gan Carwyn Jones, Gweinidog Materion Gwledig | 2 | Rhan 2: Amcanion Strategol | 18 |
| Crynodeb Gweithredol | 4 | 2.1 Rhagair | 18 |
| Rhan 1: Cyflwyno'r Strategaeth | 10 | 2.2 Coetiroedd i bobl | 18 |
| 1.1 Rhagair | 10 | 2.3 Pwyslais newydd ar reolaeth coetir | 22 |
| 1.2 Ein Gweledigaeth | 10 | 2.4 Cymru fel lleoliad diwydiannau coedwig o reng byd-eang | 26 |
| 1.3 Egwyddorion Arweiniol | 12 | 2.5 Amgylchedd amrywiol ac iach | 30 |
| a) Cynaliadwyedd | 12 | 2.6 Twristiaeth, hamdden ac iechyd | 32 |
| b) Cynhwysiad Cymdeithasol | 12 | Rhan 3: Gweithredu'r Strategaeth | 36 |
| c) Ansawdd | 12 | 3.1 Gweithredoedd a cherrig milltir | 36 |
| ch) Partneriaeth | 12 | 3.2 Gwerthuso ac arolygu | 38 |
| d) Integreiddiad | 12 | Rhan 4: Esboniad a Thystiolaeth | 40 |
| 1.4 Cyd-Destun | 14 | 4.1 Deall y cyd-destun | 40 |
| a) Hanes | 14 | a) Cyd-hanes coetiroedd Cymru | 40 |
| b) Yr Adnodd | 14 | b) Rheolaeth coetir traddodiadol | 40 |
| c) Edrych ymlaen | 14 | c) Hanes yn yr ugeinfed ganrif | 42 |
| ch) Cyflawni'n hymrwymiadau rhyngwladol | 14 | ch) Y cyfnod cyfoes | 42 |
| 1.5 Amserlen | 16 | 4.2 Paratoi'r Strategaeth | 46 |
| | | a) Crynodeb o'r Ymgynghori | 46 |
| | | b) Elfennau allweddol | 46 |
| | | c) Y broses yn dilyn ymgynghori | 48 |

Contents

| | | | |
|---|-----------|--|-----------|
| Foreword by Carwyn Jones, Minister for Rural Affairs | 3 | Part 2: Strategic Objectives | 19 |
| Executive Summary | 5 | 2.1 Introduction | 19 |
| Part 1: Introducing the Strategy | 11 | 2.2 Woodlands for people | 19 |
| 1.1 Introduction | 11 | 2.3 A new emphasis on woodland management | 23 |
| 1.2 Our Vision | 11 | 2.4 Wales as a location for world-class forest industries | 27 |
| 1.3 Guiding Principles | 13 | 2.5 A diverse and healthy environment | 31 |
| a) Sustainability | 13 | 2.6 Tourism, recreation and health | 33 |
| b) Social Inclusion | 13 | Part 3: Implementing the Strategy | 37 |
| c) Quality | 13 | 3.1 Actions and milestones | 37 |
| d) Partnership | 13 | 3.2 Evaluation and review | 39 |
| e) Integration | 13 | Part 4: Explanation and Evidence | 41 |
| 1.4 Context | 15 | 4.1 Understanding the context | 41 |
| a) History | 15 | a) The prehistory of Wales woodlands | 41 |
| b) The resource | 15 | b) Traditional woodland management | 41 |
| c) Looking forward | 15 | c) Twentieth century history | 43 |
| d) Delivering our international commitments | 15 | d) The modern era | 43 |
| 1.5 Timescale | 17 | 4.2 Preparing the strategy | 45 |
| | | a) Summary of Consultation | 47 |
| | | b) Key building blocks | 47 |
| | | c) The process after consultation | 49 |

Rhagair gan Carwyn Jones

Gweinidog Materion Gwledig



Cafwyd ehangiad sylweddol i goetiroedd yng Nghymru yn ystod yr 20fed ganrif, o isafbwynt o 5% o arwynebedd ein tir ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf i lefel o 14% heddiw. Roedd llawer o'r coetiroedd hyn yn blanhigfeydd ar y tir uchel i ddarparu pren yr oedd cymaint o alw amdano ar gyfer y diwydiant glo ac wedyn am y diwydiannau prosesu pren a ddatblygodd.

Ond y mae amserau a blaenoriaethau'n newid, ac mae gennym bellach y cyfle i osod y planhigfeydd pwrpas unigol hyn yn gadarn y tu ôl i ni a chwilio am ffyrdd arloesol o ddefnyddio adnoddau gwerthfawr ein hystâd goetirol. Y strategaeth hon yw'r cam cyntaf tuag at integreiddio rhan coetiroedd yn gyflawn mewn polisi amgylcheddol ac economaidd ehangach i Gymru y bu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gweithio tuag ato oddi ar iddo gael ei greu ddwy flynedd yn ôl.

Datblygwyd y strategaeth yn dilyn proses eang iawn o ymgynghoriad cyhoeddus a gafodd ymateb sylweddol yn canolbwyntio'n glir ar destunau sydd yn benodol i Gymru. Rwyf yn hyderus y bydd y strategaeth hon yn cwrdd â gobeithion llawer o bobl, gan greu adnoddau coetiroel mwy cynaliadwy y gall pobl Cymru ymfalchïo'n haeddiannol ynddynt; pwyslais ar reolaeth o ansawdd uchel, cynhyrchu pren ar gyfer economïau lleol; a chreu amgylchedd amrywiol ac iach a fydd o fudd i bobl leol ac yn cynnal ein diwydiannau amaethyddiaeth a thwristiaeth.

Trwy gyfrwng yr integreiddiad ohoni mewn polisi gwledig a threfol, bydd y strategaeth yn ymateb i ddyhead pobl i lunio strwythur hir-gyfnod cefn gwlad Cymru. Mae coed a choetiroedd yn elfennau amlwg yn ein tirweddau ac yn hanfodol ar gyfer bywyd gwyllt. Os cant eu rheoli'n iawn, gallant ddarparu ar gyfer yr amgylchedd, mwyhau ansawdd bywydau pobl trwy gynnig mwy o fynediad a gweithgareddau hamdden i'r cyhoedd ac ar yr un pryd yn gwneud cyfraniad pwysig i'r economi wledig yn ogystal a ddarpariaeth swyddi. Gall coetiroedd fod yn werddonau am fwynhad tawel neu chwaraeon swllyd, lleoedd i wylïo bywyd gwyllt neu am ddim byd ond ymlacio a mwynhau'r awyr iach. Ar yr un pryd, mae'r coed yn tyfu pren – adnoddau adnewyddadwy sydd yn cyfrannu tua £400 miliwn i economi Cymru bob blwyddyn.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n perchen tua 40% o goetir Cymru, ac mae gennym gyfrifoldeb arbennig i ddefnyddio'r rhain mewn ffordd gynaliadwy er budd ehangach y cyhoedd. Rydym am weithio mewn partneriaeth â pherchnogion coetir eraill er mwyn targedu adnoddau'r Cynulliad Cenedlaethol yn well a lledaenu buddion coetiroedd i bob cymuned.

Bydd gweithredu ein strategaeth yn rhoi ffyrdd newydd o ddenu cyfranogiad cymunedau lleol a cheisio cefnogaeth y cyhoedd fel y bydd modd i bawb deimlo eu bod yn rhan o'r broses a gwybod bod eu barn nhw yn cyfrif.

Gobeithiaf y byddwch yn cymryd y cyfle i ddarllen y ddogfen hon ac i ymuno'n frwdfrydig â'r Cynulliad fel partner i helpu gweithredu'r strategaeth a datblygu treftadaeth goetirol y gallwn pob un ohonom ymfalchïo ynddi.

Foreword by Carwyn Jones Minister for Rural Affairs



The 20th Century saw a major expansion of woodlands in Wales, from a low point of 5% of our land area after the First World War, to a level of 14% today. Many of these woodlands were plantations in the uplands to provide much needed timber for the mining industry and later the developing wood processing industries.

However, times and priorities change and we have the opportunity to place single purpose plantations firmly behind us and look for innovative ways in which to use our valuable woodland resource. This strategy is the first step towards fully integrating the role of woodlands into a wider environmental and economic policy for Wales, which the National Assembly for Wales has been working towards since its creation two years ago.

The strategy has been developed after an extensive public consultation process, which elicited a substantial response, clearly focussed on issues specific to Wales. I am confident that this strategy will meet many people's aspirations and create a more sustainable woodland resource, of which the people of Wales can be justly proud; an emphasis on high quality management, producing wood for local economies; and creating a diverse and healthy environment that will benefit local people and support our agriculture and tourism industries.

By its integration into rural and urban policy, this Strategy will respond to people's desire to shape the long-term structure of our countryside. Trees and woods are dominant components of our landscapes and are vital for wildlife. With the right management they can provide for the environment, enhance people's lives by offering increased public access and recreation and at the same time make an important contribution to our rural economy and to the provision of jobs. Woodlands can be havens for quiet enjoyment or noisy sports, places to watch wildlife or simply to relax and enjoy clean air. All this time, the trees are growing timber – a renewable resource that contributes about £400 million to the Welsh economy each year.

The National Assembly for Wales owns about 40% of the woodland in Wales and we have a special responsibility to use these sustainably for wider public benefit. We want to work in partnership with other woodland owners to better target the resources of the National Assembly and spread the benefits of woodlands to all communities.

The implementation of our strategy will entail new ways of involving local communities and seeking public support so that everyone can feel a part of the process and know that their views really count.

I hope you take the opportunity to read this document and that you enthusiastically join with the Assembly, as a partner to help implement the Strategy and develop a woodland heritage of which we can all be proud.

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'Carwyn Jones'.

Crynodeb Gweithredol

Mae Strategaeth Coetir Cymru yn gosod allan uchelgeisiau'r Cynulliad Cenedlaethol am goed a choetiroedd yng Nghymru. Mae'n cyflwyno Gweledigaeth am bolisi coedwigaeth a choetirol dros yr 50 mlynedd nesaf gan osod cyfeiriad am y ffordd y bydd coed a choetiroedd yn cyfrannu tuag at ddyfodol cynaliadwy i bobl Cymru.

Gweledigaeth ac Egwyddorion Sylfaenol

EIN GWELEDIGAETH am yr 50 mlynedd i ddod, yw i Gymru gael ei chydabod am ei choetiroedd o ansawdd uchel sydd yn harddu'r dirwedd, sydd yn addas i'r amgylchiadau lleol ac sydd â chymysgedd amrywiol o rywogaethau a chynefinoedd. Bydd y rhain:

- Yn cynnig buddion cymdeithasol a chymunedol go iawn, yn lleol ac yn genedlaethol;
- Yn cynnal diwydiannau ffyniannus ar sail coetir; ac
- Yn cyfrannu tuag at amgylchedd o ansawdd gwell ledled Cymru.

Wrth wireddu'r weledigaeth hon, bydd y pum egwyddor allweddol hyn yn ein harwain:

Cynaliadwyedd - Mae gan goetiroedd Cymru ran allweddol i'w chwarae wrth gyrraedd yr amcanion triphlyg o ddatblygiad cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae'r Strategaeth Coetir hon yn rhan annatod o'r cynllun datblygiad cynaliadwy cyffannol i Gymru.

Cynhwysedd Cymdeithasol - Gall coetir wneud gwahaniaeth i ansawdd bywydau pobl. Gall coetiroedd gynnig cyfleoedd am ddatblygiad economaidd, hamdden a gofal iechyd ataliol trwy mwy o fynediad i'r awyr iach. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol gyfrifoldeb arbennig am sicrhau bod y coetiroedd sydd yn eiddo iddo'n cynnig buddion cymdeithasol i gymunedau.

Ansawdd - Gall coetiroedd gyfrannu tuag at ddelwedd Cymru, trwy ddenu ymwelwyr a chodi ansawdd bywyd. Rhaid i bob agwedd o goetiroedd Cymru gynnig canlyniadau o ansawdd a rhaid bod gan pawb sydd yn rheoli coetiroedd fynediad i hyfforddiant a chefnogaeth o safon uchel.

Partneriaeth - Daeth y weledigaeth hon allan o ymgynghoriad eang iawn. Nid dyma rywbeth y gall y Cynulliad Cenedlaethol mo'i gwireddu wrth ei hunan; mae'n gofyn am gyfranogiad ac ymrwymiad gan bawb yn ogystal ag agwedd hyblyg sydd yn cynnwys gwybodaeth a brwdfrydedd pobl. Dim ond trwy bartneriaethau effeithiol rhwng y sectorau preifat a chyhoeddus, diwydiant, gwirfoddolwyr ac unigolion y gellir gwireddu'r weledigaeth.

Integreiddiad - Ni ellir ystyried coetiroedd wrth eu hunain. Rhaid integreiddio'r strategaeth hon mewn rhaglenni eraill ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Trwy'r strategaeth hon, bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ysgogi arbrawf gwfreiddiol i ysgogi'r economi gwledig mewn ffordd integreiddiedig.



Llun:CCW

Executive Summary

Woodlands for Wales sets out the National Assembly's strategy for trees and woodlands in Wales. It presents a Vision for forestry and woodland policy over the next 50 years and sets a direction for the way in which trees and woodlands will contribute to a sustainable future for the people of Wales.

Vision and Guiding Principles

OUR VISION for the next 50 years, is that Wales will be known for its high-quality woodlands that enhance the landscape, are appropriate to local conditions and have a diverse mixture of species and habitats. These will:

- Provide real social and community benefits, both locally and nationally;
- Support thriving woodland-based industries; and
- Contribute to a better quality environment throughout Wales.



In realising this vision, we shall be guided by five key principles:

Sustainability - The woodlands of Wales have a key part to play in achieving the triple goals of social, economic and environmental development. This woodland strategy is an integral part of the overall sustainable development plan for Wales.

Social Inclusion - Woodland can make a difference to the quality of people's lives. Woodlands can provide opportunities for economic development, recreation and preventative health care through greater access to fresh air. The National Assembly has a special responsibility for ensuring that its own woodlands provide social benefits to communities.

Quality - Woods can contribute to the image of Wales, by attracting visitors and enhancing the quality of life. All aspects of Welsh woodlands must deliver quality outputs and everyone managing woodlands must have access to high quality training and support.

Partnership - This vision has emerged from a wide-ranging consultation. It is not something that can be achieved by the National Assembly alone; it requires involvement and commitment from everyone and a flexible approach, which embraces people's knowledge and enthusiasm. Only through effective partnerships between the public and private sectors, industry, volunteers and individuals will the vision be achieved.

Integration - Woodlands cannot be considered in isolation. This strategy must be integrated into other programmes at national, regional and local levels. Through this strategy, the National Assembly will start an exciting experiment to stimulate the rural economy in an integrated way.

Y Cyd-destun

Mae coetiroedd yn gorchuddio tua 14% o dir Cymru, rhyw 40% ohono'n eiddo'r Cynulliad Cenedlaethol (coetiroedd y Comisiwn Coedwigaeth). Mae coetiroedd yn adnoddau naturiol adnewyddadwy a all greu delwedd adeiladol i Gymru, cyfrannu tuag at amcanion y Cynulliad am economi llwyddiannus, amgylchedd gwella a chymunedau iach, ac ychwanegu at ansawdd gyfannol bywyd. Yn y strategaeth hon, rydym wedi ceisio dysgu'n weithredol o brofiad y gorffennol, addasu i newidiadau diweddar mewn marchnadoedd ac yn y gymdeithas a gosod cyfeiriad sydd yn berthnasol i'r ganrif newydd hon. Mae'r strategaeth yn rhan o gyfraniad Cymru tuag at gwrdd â'n hymrwymiaidau rhyngwladol ar reolaeth coedwig gynaliadwy, gan ddefnyddio pren fel adnodd adnewyddadwy a chyfrannu tuag at leihad net mewn gollyngiadau nwyon tŷ gwydr. Mae'n ymwneud ag ymrwymiad i newid y ffordd y byddwn yn rheoli ac yn defnyddio'n coetiroedd yn y cyfnod hir. Mae'r strategaeth yn anelu at gyd-gysylltu â phobl a chyrrff ledled Cymru, ac i gynnal y cyfranogiad hwn trwy sefydlu Fforwm Coetir i adrodd yn ôl ar ddatblygiadau wrth cyrraedd canlyniadau ac i roi peirianwaith cadarn am arolygon yn y dyfodol.



Amcanion Strategol a Blaenoriaethau Gweithredu Allweddol

Mae'r strategaeth yn gosod rhaglenni am weithredu yn erbyn pump amcan strategol.

1. COETIROEDD I BOBL – Bydd coetiroedd yn rhoi buddion amgylcheddol a chymdeithasol i gymunedau lleol, gan gefnogi cyfleoedd am ddysgu a chyfrannu tuag at gynaliadwyedd lleol.

Blaenoriaethau am weithredu

- Defnyddio coetiroedd fel asedion cymdeithasol a diwylliannol am rai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig;
- Mwyafu'r defnydd o goetiroedd am ddysgu; a hefyd
- cynnig cyfleoedd am i gymunedau gael lleisio barn ynglŷn â rheoli coetiroedd yn agos i'w cartrefi.

2. PWYSLAIS NEWYDD AR REOLAETH

COETIROEDD – Rhaid i goetiroedd gynnig buddion cynyddol i berchnogion a'r cyhoedd. Wrth reoli coetiroedd sydd eisoes yn bodoli a sefydlu coetiroedd newydd, rhaid i ni ddysgu o'r dulliau gweithredu gorau cyfredol, gan roi cefnogaeth effeithiol ar gyfer perchnogion a rheolwyr a chwrrd ag uchelgeisiau'r cyhoedd.

Blaenoriaethau am weithredu

- Hyrwyddo'r dulliau gweithredu gorau mewn rheoli coetir;
- Symud draw at ddefnydd uwch o systemau o orchudd di-dor; a hefyd
- Dod o hyd i safleoedd priodol i goedydd a choetiroedd newydd.

3. CYMRU FEL LLEOLIAD AM DDIWYDIANNAU

COEDWIG O ANSAWDD RHYNGWLADOL – Mae cynhyrchiant pren yn debygol o gynyddu yn ystod y deng mlynedd nesaf ac mae'n hanfodol y bydd proseswyr pren yn cael cymorth i ddatblygu eu busnesau a chadw swyddi medrus. Mae diwydiannau coetir yn cyfrannu rhyw £400 miliwn y flwyddyn i economi Cymru. A byddwn yn mwyafu'r cysylltiadau â busnesau eraill mewn amaethyddiaeth, twristiaeth a gweddill yr economi.

Blaenoriaethau am weithredu

- Cynnig cefnogaeth fusnes effeithiol i ddiwydiannau coedwig Cymru;

Executive Summary

Context

Woodlands occupy about 14% of Wales, of which, some 40% is owned by the National Assembly (The Forestry Commission woodlands). Woodlands are a renewable natural resource, which can generate a positive image for Wales, contribute to the Assembly's aims for a successful economy, better environment and healthy communities, and add to the overall quality of life. In this strategy we have tried to actively learn from past experience, to adapt to recent changes in markets and society and to set a direction relevant to this new century. The strategy is part of Wales contribution to meeting our international commitments on sustainable forest management, using wood as a renewable resource and contributing to a net reduction in greenhouse gas emissions. It is about a commitment to change the way in which we manage and use our woodlands in the long-term. The strategy seeks to engage with people and organisations throughout Wales, and to maintain this involvement by setting up a Woodland Forum to report progress in achieving outputs and provide a robust mechanism for future review.



Strategic Objectives and Key Priorities for Action

The strategy sets out programmes for action against five strategic objectives.

1. WOODLANDS FOR PEOPLE - Woodlands will provide environmental and social benefits to local communities, supporting opportunities for learning and contributing to local sustainability.

Priorities for Action

- To use woodlands as a social and cultural asset for some of our most disadvantaged communities;
- To maximise the use of woodlands for learning; and
- To provide opportunities for communities to have their say in the management of woods close to where they live.

2. A NEW EMPHASIS ON WOODLAND

MANAGEMENT - Woodlands must provide increasing benefits to owners and the public. In managing existing woodlands and establishing new woodlands, we must learn from current best practice, provide effective support to owners and managers and meet public aspirations.

Priorities for Action

- To promote best practice in woodland management;
- To move to a greater use of continuous-cover systems; and
- To find appropriate sites for new trees and woodland.

3. WALES AS A LOCATION FOR WORLD-CLASS

FOREST INDUSTRIES - Timber production is set to increase in the next decade and it is vital that wood processors are helped to develop their businesses and retain skilled jobs. Woodland industries contribute some £400 million a year to the Welsh economy, and we will maximise the linkages to other businesses in agriculture, tourism and the rest of the economy.

Priorities for Action

- To provide Welsh forest industries with effective business support;
- To develop the wood supply chain, product development and marketing;

Crynodeb Gweithredol

- Datblygu'r gadwyn gyflenwad pren, datblygiad a marchnata cynhyrchion ;
- Cynnig cefnogaeth i goetiroedd fferm a'r economi gwledig ehangach; a hefyd
- Meithrin datblygiad ynni adnewyddadwy yn seiliedig ar bren.

4. AMGYLCHEDD AMRYWIAETHOL AC IACH – I gyrraedd cynaliadwyedd go iawn, rhaid cynnal neu wella'r adnoddau materol a biolegol o fewn coetiroedd, megis dŵr, pridd, llystyfiant ac anifeiliaid. Mae iechyd yr amgylchedd yn allweddol i bobl yn ogystal ag i anifeiliaid a phlanhigion a'r cynefinoedd maent yn dibynnu arnynt.

Blaenoriaethau am weithredu

- Diogelu a hyrwyddo bioamrywiaeth ein coetiroedd;
- Diogelu a hyrwyddo tirweddau Cymru; a hefyd
- Integreiddio coetiroedd yn well â rheolaeth arall cefn gwlad.

Mae iechyd yr amgylchedd yn allweddol i bobl yn ogystal ag i anifeiliaid a phlanhigion a'r cynefinoedd maent yn dibynnu arnynt.

5. TWRISTIAETH, HAMDDEN AC IECHYD – mae coetiroedd yn rhoi strwythur i dirwedd a chefnidir am lawer o fentrau twristaidd. Ceir dros 11 o filiynau o ymweliadau i goetiroedd Cymru bob blwyddyn ac mae effeithiau buddiol ar iechyd emosiynol a chorfforol y genedl yn tarddu o'r defnydd o'n coetiroedd am ymarfer a mwynhad.

Blaenoriaethau am weithredu

- Defnyddio coetiroedd i helpu creu profiad o ansawdd uchel i ymwelwyr; a hefyd
- Hyrwyddo iechyd trwy fynediad i goetiroedd i bob cymuned.

Gweithredu'r Strategaeth

Nid yw gweithrediad yn rywbeth y gall y Cynulliad Cenedlaethol mo'i gwireddu wrth ei hunan; mae'n galw am gyfranogiad ac ymrwymiad gan bawb. Byddwn yn sefydlu Fforwm Coetir gyda chynrychiolaeth eang ledled Cymru i oruchwylio'r cynydd mewn gwireddiad, ystyried blaenoriaethau ac i adrodd yn ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol. Gorchwyl cynnar i'r Fforwm Coetir fydd datblygu mynegyddion cynnydd i'r cyrff partneriaethol roi adroddiadau o gynnydd yn eu herbyn.

Bydd angen gwaith i symud tuag at yr holl amcanion strategol er mwyn gwireddu'r weledigaeth. O fewn y rhaglenni hyn, bydd cyrff partneriaethol yn datblygu gorchwyl arweiniol ar gyfer gwahanol flaenoriaethau neu weithredoedd a gytunir trwy gyfrwng y Fforwm.



Executive Summary

- To provide support for farm woodlands and the wider rural economy; and
- To foster the development of renewable energy based on wood.

4. A DIVERSE AND HEALTHY ENVIRONMENT - In order to achieve true sustainability, the physical and biological resources within woodlands, such as the water, soil, flora and fauna, must be maintained or improved. The health of the environment is crucial for people as well as animals and plants and the habitats on which they depend.

Priorities for Action

- To conserve and enhance the biodiversity of our woodlands;
- To conserve and enhance the landscapes of Wales; and
- To better integrate woodlands with other countryside management.

5. TOURISM, RECREATION AND HEALTH

Woodlands provide a landscape structure and a setting for many tourist enterprises. Over 11 million visits are made to Welsh woodlands each year and the use of woodlands for exercise and enjoyment has beneficial effects on the emotional and physical health of the nation.

Priorities for Action


- To use woodlands to help create a high-quality visitor experience; and
- To promote health through access to woodlands for all communities.

Implementing the Strategy

Implementation is not something that can be achieved by the National Assembly alone; it requires involvement and commitment from everyone. A Woodland Forum is to be set up with a wide representation throughout Wales, to oversee progress with implementation, to consider priorities and to report to the National Assembly. An early task for the Woodland Forum will be to develop performance indicators against which partner bodies can report progress.

Work will need to proceed towards all of the strategic objectives in order to achieve the vision. Within these programmes, partner bodies will develop a lead role for different priorities or actions, agreed through the Forum.

The health of the environment is crucial for people as well as animals and plants and the habitats on which they depend.



Rhan 1: Cyflwyno'r Strategaeth

Mae datganoli wedi rhoi'r symbyliad am agenda newydd ac arbennig Cymreig ar gyfer coetiroedd Cymru. Gallwn bellach ddatblygu agwedd newydd tuag at goetiroedd yng Nghymru trwy'r strategaeth hon. Bydd rheolaeth gynaliadwy i goetiroedd yn cyfrannu tuag at nod y Cynulliad Cenedlaethol o gyfiawnder cymdeithasol a ffyniant i bawb.

1.1 Rhagair

Ein nod yw datblygu coetiroedd o ansawdd uchel yng Nghymru, gydag ansawdd amgylcheddol a darpariaeth gymdeithasol ragorol o fewn diwydiant sydd yn cyfrannu'n adeiladol tuag at yr economi trwy ddarparu cyflogaeth ddiogel, tymor-hir. O fewn coedwigaeth, ni fydd penderfyniadau a wneir heddiw yn dangos eu heffeithiau llawn am hanner canrif neu fwy, felly mae gan y Cynulliad Cenedlaethol ymrwymiad i ddatblygiad parhaus y strategaeth hon an hanner cyntaf yr 21ain Ganrif.

1.2 Ein Gweledigaeth

EIN GWELEDIGAETH am yr 50 mlynedd i ddod, yw i Gymru gael ei chydabod am ei choetiroedd o ansawdd uchel sydd yn harddu'r dirwedd, sydd yn addas i'r amgylchiadau lleol ac sydd â chymysgedd amrywiol o rywogaethau a chynefinoedd. Bydd y rhain:

- Yn cynnig buddion cymdeithasol a chymunedol go iawn, yn lleol ac yn genedlaethol;
- Yn cynnal diwydiannau ffyniannus ar sail coetir; ac
- Yn cyfrannu tuag at amgylchedd o ansawdd gwell ledled Cymru.

Gwireddir y weledigaeth hon trwy gyfrwng pum Rhaglen o Weithgaredd:

- 1 Coetiroedd i Bobl;**
- 2 Pwyslais newydd ar reolaeth coetir;**

- 3 Cymru fel lleoliad i ddiwydiannau coedwig o reng byd-eang;**
- 4 Amgylchedd amrywiol ac iach;**
- 5 Twristiaeth, hamdden ac iechyd.**



Part I: Introducing the Strategy

Devolution has provided the impetus for a new and distinctive Welsh agenda for its woodlands. We can now develop a new approach to woodlands in Wales through this strategy. Sustainable woodland management will contribute towards the National Assembly's aim of social justice and prosperity for all.

1.1 Introduction

Our aim is to develop high-class woodlands in Wales, with outstanding environmental quality and social provision, set within an industry that contributes positively to the economy by providing safe and long-term employment. In forestry, decisions taken now will not show their full impact for fifty years or more, so the National Assembly is committed to continual development of this strategy for the first half of the 21st century.

1.2 Our Vision

OUR VISION for the next 50 years, is that Wales will be known for its high-quality woodlands that enhance the landscape, are appropriate to local conditions and have a diverse mixture of species and habitats. These will:

- Provide real social and community benefits, both locally and nationally;
- Support thriving woodland-based industries; and
- Contribute to a better quality environment throughout Wales.

This vision will be realised through five *Programmes for Action*:

- 1 Woodlands for People;**
- 2 A new emphasis on woodland management;**

- 3 Wales as a location for world-class forest industries;**
- 4 A diverse and healthy environment; and**
- 5 Tourism, recreation and health.**



Photo:CCW



Rhan I: Cyflwyno'r Strategaeth

1.3 Egwyddorion Arweiniol

Bydd yr egwyddorion o ddatblygiad cynaliadwy, cyfiawnder cymdeithasol a chyfartaledd cyfle, fel ag a fynegir yn *Y Gymru Gynaliadwy: Rhoi Cymru'n Gyntaf: Partneriaeth ar gyfer Pobl Cymru; a Chynllun Corfforaethol y Cynulliad Cenedlaethol* yn dwyn y teitl *gwellgymru.com* yn gymwys ar gyfer holl amcanion y strategaeth hon. Cyflawnir ein gweledigaeth am ddyfodol coetiroedd Cymru trwy gyfrwng yr egwyddorion arweiniol hyn:

a) Cynaliadwyedd

Trwy ddeddfwriaeth a thrwy ddewis, mae gan y Cynulliad Cenedlaethol ymrwymiad tuag at ddatblygiad cynaliadwy. Mae gan goetiroedd Cymru ran allweddol i'w chwarae wrth gyrraedd yr amcanion triphlyg o ddatblygiad cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae'r strategaeth coetir hon yn rhan annatod o gynllun datblygu cynaliadwy cyfannol i Gymru.

b) Cynhwysiad Cymdeithasol

Gall coetir wneud gwahaniaeth i ansawdd bywydau'r bobl. Trwy gyfranogiad cymunedol, gall pobl leol helpu perchnogion coetir i sicrhau darpariaeth o gyfleoedd am ddatblygiad economaidd, hamdden a gofal iechyd rhagofalus trwy fwy o fynediad i'r awyr iach ac am le i ymarfer yn agos i'w trigfannau. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol gyfrifoldeb arbennig am sicrhau bod ei goetiroedd yn darparu buddion cymdeithasol i gymunedau.



Llun:Hawlfraint Coron Prydain:Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

c) Ansawdd

Rhaid i goetiroedd Cymru gyflawni canlyniadau o ansawdd i bawb, boed hynny trwy hamdden, cynhyrchu pren, cyfranogiad cymunedol neu eu heffeithiau gweledol ac esthetig. Gall coetiroedd gyfrannu i ddelwedd Cymru trwy ddenu ymwelwyr a mwyhau ansawdd bywyd. Er mwyn cyflawni ansawdd, rhaid bod gan y sawl sydd yn rheoli coetiroedd ledled Cymru ddealltwriaeth dda o'r dulliau rheoli gorau, trwy hyfforddiant priodol, a dylant osod amcanion cyfnod hir am welliant.

ch) Partneriaeth

Nid rhywbeth y gall y Cynulliad Cenedlaethol ei hunan ei gyrraedd mo'r weledigaeth hon: mae angen cyfranogiad ac ymrwymiad pawb. Rhaid bod agwedd hyblyg sydd yn cynnwys gwybodaeth a brwdfrydedd y bobl. Dim ond trwy bartneriaethau effeithiol rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat, diwydiant, gwirfoddolwyr ac unigolion y gellir cyflawni'r weledigaeth.

e) Integreiddiad

Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn integreiddio'r strategaeth coetir hon ym mhob un o'i raglenni ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae dolennau cryfion yn bodoli rhwng coedwigaeth ac amaethyddiaeth. Mae'r naill ddiwydiant a'r llall yn wynebu heriau o gwmpadau mewn prisiau'r farchnad, cystadleuaeth gan fewnforion rhad a'r angen i addasu i destunau cymdeithasol ac amgylcheddol. Gallai integreiddiad agosach rhwng y gwahanol raglenni cymdeithasol, amgylcheddol, coedwigaethol, amaethyddol a twristiaeth helpu'n ddirfawr yn y broses hon. Bydd Strategaeth Datblygiad Economaidd Cenedlaethol y Cynulliad yn dechrau cyflawni llawer o'r gefnogaeth datblygu i fusnesau coedwigaeth, yn enwedig trwy bartneriaethau Amcan 1. Mae integreiddio'n bosibl hefyd mewn polisiau trefol lle y gall coed a choetiroedd yn ein trefi a dinasoedd ac o'u cwmpas wella ansawdd bywyd y sawl sydd yn byw ac yn gweithio yno.

Gall coed a choetiroedd yn ein trefi a dinasoedd ac o'u cwmpas wella ansawdd bywyd y sawl sydd yn byw ac yn gweithio yno.

Part I: Introducing the Strategy

1.3 Guiding Principles

The principles of sustainable development, social justice and equality of opportunity, as expressed in *Sustainable Wales; Putting Wales First: a Partnership for the People of Wales*; and the National Assembly's Corporate Plan entitled *Betterwales.com*, will apply to all the objectives of this strategy. Our vision for the future of Wales woodlands will be achieved through these guiding principles:

a) Sustainability

By statute and by choice, the National Assembly is committed to sustainable development. The woodlands of Wales have a key part to play in achieving the triple goals of social, economic and environmental development. This woodland strategy is an integral part of the overall sustainable development plan for Wales.

b) Social Inclusion

Woodland can make a difference to the quality of people's lives. Through community involvement, local people can help woodland owners to ensure that opportunities are provided for economic development, recreation and preventative health care through greater access to the fresh air and for exercise close to where they live. The National Assembly has a special responsibility for ensuring that its own woodlands provide social benefits to communities.

c) Quality

Welsh woodlands must deliver quality outputs for everyone whether through recreation, timber production, community involvement or their visual and aesthetic impact. Woods can contribute to the image of Wales, by attracting visitors and enhancing the quality of life. To achieve quality, those managing the woodlands throughout Wales must have a good understanding of best management practices, through appropriate training, and should set long-term objectives for improvement.

Trees and woods in and around our towns and cities can greatly improve the quality of life for those who live and work there.

d) Partnership

This vision is not something that can be achieved by the National Assembly alone; it requires involvement and commitment from everyone. There must be a flexible approach, which embraces people's knowledge and enthusiasm. Only through effective partnerships between the public and private sectors, industry, volunteers and individuals will the vision be achieved.

e) Integration

The National Assembly will integrate this woodland strategy into all its programmes at national, regional and local levels. There are strong links between forestry and agriculture. Both industries face challenges from falling market prices, competition from cheap imports, and the need to adapt to social and environmental issues. Closer integration between the various social, environmental, forestry, agriculture and tourism programmes could greatly assist this process. The Assembly's National Economic Development Strategy will begin to deliver much of the development support to forestry businesses, particularly through the Objective 1 partnerships. Integration is also possible in urban policies, where trees and woods in and around our towns and cities can greatly improve the quality of life for those who live and work there.



Rhan I: Cyflwyno'r Strategaeth

1.4 Cyd-Destun

a) Hanes

Mae gan goetiroedd Cymru hanes hir, fel ag a fanylir yn Rhan 4 o'r strategaeth hon. Yn ystod y ganrif a aeth heibio, gweithredodd y Llywodraeth yn bositif i ddyblu gorchudd coetir y DU, mewn ymateb i brinderau pren a ddigwyddodd yn ystod y naill Ryfel Byd a'r llall.

Datblygwyd yr ystâd goedwig hon i raddau helaeth ar dir amaethyddol o ansawdd isel ac ar rostir y tir uchel. Roedd y coetiroedd a grëwyd yn y sectorau cyhoeddus a phreifat trwy weithredu'n uniongyrchol a thrwy ysgogiadau ariannol yn blanhigfeydd pwrpas unigol o gonifferau yn bennaf a fyddai'n cynhyrchu pren yn gyflym yn yr amgylcheddau garw hyn.

Tua diwedd y ganrif daeth newidiadau ymarferol mewn canlyniad i dyfiant mewn ymwybyddiaeth amgylcheddol, a chafwyd pwyslais newydd ar ddefnydd aml-ddibenion o goetiroedd. Mabwysiadwyd polisïau newydd, gan ailstrwythuro'r planhigfeydd hyn trwy well ddyluniant coedwig, er mwyn cyflwyno buddion aml-bwrpas – gwell dirwedd; mwy o bioamrywiaeth; mwy o fynediad a hamdden i'r cyhoedd a pharhad mewn canlyniadau economaidd o bren a chynhyrchion eraill.

b) Yr Adnodd

Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol y berchnogaeth unigol fwyaf o goetir yng Nghymru – coetiroedd y Comisiwn Coedwigaeth. Dyma adnodd anferth, gan gymryd tua 6% o arwynebedd tir Cymru a fydd yn cael ei ddefnyddio er lles y cyhoedd. Byddwn yn defnyddio'r coetiroedd hyn fel esiamplau o'r dulliau gweithredu gorau, i gyflwyno buddion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd trwy reolaeth flaengar – coetiroedd y gall pobl Cymru ymfalchïo ynddynt â chyfiawnhad. Yn y sector preifat ceir niferoedd mawr o goetiroedd cymharol bychain a grëir ac a chynhelir gan berchnogion unigol sydd yn cynnig buddion amryfal ac amrywiol. Byddwn yn annog pob perchennog coetir i chwarae eu rhan wrth gyfrannu tuag at y frithlen gyfoethog o goetiroedd a fydd yn cyflawni'n gweledigaeth.

Mae llawer o etifeddiaeth coetiroedd heddiw'n ganlyniad stiwardiaeth ofalus gan genedlaethau o berchnogion unigol.

c) Edrych Ymlaen

Bydd y strategaeth hon yn parhau ag agwedd aml-bwrpas tuag at goedwigaeth a bydd yn ymdrechu i ddatblygu'n bellach y buddion cymdeithasol y gall coetiroedd eu cynnig i bobl Cymru. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cydnabod y bydd hyn yn mynnu iddo ddatblygu agwedd flaengar, newydd trwy gyfrwng y strategaeth hon. Mae coedwigaeth yn sector a hanes hir iddo, ac mae llawer o etifeddiaeth coetiroedd heddiw'n ganlyniad stiwardiaeth ofalus gan genedlaethau o berchnogion unigol. Mae'r perchnogion hyn o dan wasgedd hinsawdd ariannol heddiw, lle mae prisiau pren wedi syrthio'n arw yn ystod y 1990au diweddar. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol ymrwymiad tuag at weithio mewn partneriaeth â pherchnogion coetiroedd, diwydiannau a'r sector gwirfoddol er mwyn mynd â'r strategaeth rhagddo.

ch) Cyflawni'n hymrwymiaidau rhyngwladol yng Nghymru

Bydd y strategaeth hon yn helpu Llywodraeth y DU i gyflawni ei hymrwymiaidau rhyngwladol i goedwigaeth gynaliadwy, fel ag a nodir yn Safon Goedwigaeth y DU a gyhoeddwyd ym 1998.

Ardystiwyd yn annibynnol bod holl goedwigoedd y Cynulliad Cenedlaethol yng ngofal y Comisiwn Coedwigaeth yn cyrraedd safon Cynllun Sicrwydd Coetir y DU (CACDU/UKWAS). Mae Cyngor Stiwardiaeth Coedwigaeth rhyngwladol an-llywodraethol (CSC/FSC) yn derbyn bod y safon hon yn cwrdd â'i ofyniadau am ardystio coetiroedd a reolir yn gynaliadwy. Byddwn yn pleidïo rheolaeth coedwigaeth gynaliadwy ymhlith perchnogion coetir eraill yng Nghymru, ac yn helpu datblygu systemau yn dangos cadwyn warchodaeth ar gyfer busnesau sydd yn defnyddio pren fel y bydd modd arddangos gynaliadwyedd cyflawn yn glir.



Part I: Introducing the Strategy

I.4 Context

a) History

The woodlands of Wales have a long history, as explained in some detail in Part 4 of this strategy. During the last century, the Government took positive action to double the woodland coverage in the UK, in response to timber shortages experienced during the two World Wars. This forest estate was largely developed on poor-quality farmland and moorland in the uplands. Woodlands, created in the public and private sectors through direct action and financial incentives, were predominantly single-purpose plantations of conifers, which would grow timber quickly in these harsh environments.

Towards the end of the century, growing environmental awareness brought changes in practice, and a new emphasis on the use of woodlands for multiple benefits. New policies were adopted, restructuring these plantations through improved forest design, to deliver multi-purpose benefits - a better landscape; greater biodiversity; more public access and recreation; and continued economic outputs from timber and other products.

b) The Resource

The National Assembly has the largest single woodland ownership in Wales - the Forestry Commission woodlands. This is a huge resource, taking up about 6% of the land area of Wales, which will be used for the public good. We will use these woodlands as exemplars of best practice, to deliver social, environmental and economic benefits through innovative management - woodlands of which the people of Wales can be rightly proud. In the private sector, there are large numbers of relatively small woodlands, created and maintained by individual owners, providing varied and diverse benefits. We will encourage all woodland owners to play their part in contributing to the rich tapestry of woodlands that will achieve our vision.

Today's woodland inheritance is the result of careful stewardship by generations of individual owners.

c) Looking Forward

This strategy will continue a multi-purpose approach to forestry and will seek to develop further the social benefits that woodlands can bring to the people of Wales. The National Assembly recognises that this will require it to develop a new and innovative approach through this strategy. Forestry is a long established sector, and much of today's woodland inheritance is the result of careful stewardship by generations of individual owners. These owners are under pressure in today's challenging financial climate, where timber prices have fallen steeply in the late 1990s. The National Assembly is committed to working in partnership with woodland owners, industry and the voluntary sector in taking forward this strategy.

d) Delivering our international commitments in Wales

This strategy will help the UK Government to deliver its international commitments to sustainable forestry, as set out in the UK Forestry Standard, published in 1998.

All of the National Assembly's woodlands in the care of the Forestry Commission have been independently certified as meeting the UK Woodland Assurance Scheme (UKWAS) standard. The international non-governmental Forestry Stewardship Council (FSC) accepts this standard as meeting their requirements for certification of sustainably managed woodlands. We will champion sustainable forest management amongst other woodland owners in Wales, and help develop systems showing chain of custody, for wood using businesses so that full sustainability can be clearly demonstrated.



Rhan 1: Cyflwyno'r Strategaeth

1.5 Amserlen

Mae'r strategaeth hon yn ymwneud ag ymrwymiad tuag at newid y ffordd y byddwn yn rheoli ac yn defnyddio'n coetiroedd yng Nghymru yn y tymor hir. Ar gyfer yr 50 mlynedd nesaf y mae ein gweledigaeth ni, ond mae hanes yn ein dysgu y gall llawer newid yn ystod y cyfnod hwnnw. Yn anaml y bydd yr amgylchiadau wrth i'r coed gael eu torri yn debyg i'r rhai a ragwelwyd pan blannwyd yr un coed. Bydd yr amgylchiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn parhau i newid, a bydd effeithiau'r strategaeth hon yn weladwy yn bell i mewn i'r dyfodol.

Nid ydym yn deall yn llawn eto effeithiau tebygol newid yn yr hinsawdd, na chwaith yn rhagweld maint datblygiadau technolegol yn y dyfodol nac esblygiad gofyniadau'r gymdeithas. Oherwydd yr effeithiau hyn, mae'n hanfodol i hon fod yn strategaeth digon hyblyg i hwyluso newid a byddwn yn sefydlu Fforwm Coetir i Gymru i ddiweddar a mân-addasu gweithredoedd penodol ar hyd yr amser.

Byddwn hefyd yn ymgynghori yn ehangach o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau ein bod yn dal i gwrdd â disgwyliadau pobl. Rydym yn hyderus y bydd egwyddorion sylfaenol y strategaeth hon yn parhau i fod yn berthnasol ac y bydd penderfyniadau a wneir nawr yn cyfrannu tuag at greu gwell amgylchedd i bobl Cymru ac i'n llu o ymwelwyr yn bell i mewn i'r dyfodol.



Llun:CCW

Mae'r strategaeth hon yn ymwneud ag ymrwymiad tuag at newid y ffordd y byddwn yn rheoli ac yn defnyddio'n coetiroedd yng Nghymru yn y tymor hir.



Part I: Introducing the Strategy

I.5 Timescale

This strategy is about a commitment to change the way in which we manage and use our woodlands in Wales in the long-term. Our vision is for the next 50 years, but history teaches us that much can change in that time. The conditions when trees are felled are rarely those anticipated when the same trees were planted. Social, economic and environmental conditions will continue to change, and the effects of this strategy will be visible well into the future.

- We will work with WDA and other partners to develop information and advice for Local Planning Authorities on wood-based renewable energy.



Photo:CCW

Rhan 2: Amcanion Strategaeth

2.5 Amgylchedd amrywiol ac iach

Gall coetiroedd â rheolaeth dda cynnig canlyniadau amrywiol yn ogystal â bod yn enghreifftiau o gynaliadwyedd. Er mwyn cyrraedd cynaliadwyedd go iawn, rhaid cynnal neu wella'r adnoddau materol a biolegol o fewn coedwigoedd, megis dŵr, pridd, planhigion a chreaduriaid. Mae coetiroedd yn cynnig cynefinoedd i bobl eu mwynhau hefyd a gallant harddu'r dirwedd, gan gynyddu posibiliadau am dwristiaeth mewn ardaloedd gwledig. Rydym pob un ohonom yn dibynnu ar yr amgylchedd, ac mae iechyd yr amgylchedd yn ollbwysig am ddatblygiad cymunedau gwledig a threfol. Ni ellir ystyried cynefinoedd coetiroedd ar wahân; maent yn agos eu cysylltiadau â defnyddiau tir eraill a gall rheolaeth y coetiroedd gael effeithiau sylweddol ar dir cyffiniol ac i'r gwrthwyneb. Dyma'r amcanion allweddol am gyflawni amgylchedd iach ac amrywiol:


- Cadw a mwyhau bioamrywiaeth ein coetiroedd;
- Cadw a mwyhau tirweddau Cymru; a hefyd
- Integreiddio coetiroedd yn well gyda rheolaeth eraill o gefn gwlad.

2.5.1 Cadw a mwyhau bioamrywiaeth ein coetiroedd

Mae coetiroedd yn cynnwys rhai o'r cymunedau planhigion ac anifeiliaid mwyaf amrywiol mewn unrhyw gynefin. Mae ein coetiroedd hanner-naturiol hynafol yn asedion unigryw ac mae coetiroedd derw ein hucheldiroedd o bwys rhyngwladol. Mae gan goetiroedd a blannwyd yn ddiweddar ac sydd ag olion llystyfiant hanner-naturiol werth bioamrywiaethol uchel neu'r potensial am hynny. Gellid dangos llwyddiant y strategaeth hon os gallwn wella ansawdd y coetiroedd hyn, gan gysylltu ac ehangu eu rhwydweithiau o gynefinoedd heb beryglu cynefinoedd gwerthfawr eraill neu nodweddion hanesyddol. Mae'r rhagolygon o newid hinsoddol byd-eang yn mynnu i ni ystyried gwydnwch ein cynefinoedd coetiroedd fel y gallwn ganolbwyntio ein hymdrechion cadwraethol ar gynefinoedd a fydd yn gynaliadwy yn y cyfnod hir.

- Byddwn yn cynyddu ansawdd coetiroedd brodorol ar gyfer bywyd gwyllt ac yn gweithredu targedau yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth am eu hadfer a'u hehangu, gan greu dolennau rhwng coetiroedd candryll.
- Byddwn yn cynyddu'r arwynebedd o goetir sydd yn cyrraedd ardystiad amgylcheddol annibynnol i safonau a gydnabyddir yn rhyngwladol.

- Byddwn yn cynyddu arwynebedd coetiroedd brodorol, gan dargedu ehangiad a chysylltiad coetiroedd presennol ac ymgorffori'r syniad o gynyddu arwynebedd craidd cynefinoedd coetiroedd brodorol.
- Byddwn yn annog perchnogion i ymgorffori gwahanol gynefinoedd megis rhostir a chors o fewn coetiroedd, er mwyn mwyafu'r cysylltiadau rhwng mathau tebyg o gynefinoedd.
- Byddwn yn cynyddu bioamrywiaeth coetiroedd conifer trwy ddefnyddio systemau gorchudd di-dor, datblygu strwythurau aml-oedran trwy atgynhyrchu naturiol ac ymgorffori rhywogaethau brodorol.



2.5.2 Cadw a mwyhau tirweddau Cymru

Mae gan goed a choetiroedd effaith weledol uchel ac maent yn elfennau allweddol ein tirweddau mwyaf annwyl. Mae coetiroedd yn cyfrannu hefyd tuag at ansawdd ein bywydau trwy harddu cyffiniau ein trefi, dinasoedd ac ardaloedd masnachol. Gall coed a choetiroedd helpu adfer tirweddau yn dilyn mwyngloddio a gweithgareddau diwydiannol yn y gorffennol. Coledir treftadaeth gyfoethog archeolegol mewn coetiroedd, tirweddau hanesyddol, parciau a gerddi am ei gyfraniad tuag at ein cymdeithas. Ond mae tirwedd yn ddeinamig ac yn newid yn barhaus. Rhaid i ni sicrhau bod ein coetiroedd yn harddu'r dirwedd trwy gydnabod eu hanes a thrwy ddefnyddio egwyddorion dylunio cyfoes wrth gynllunio rheolaeth ac amnewid planhigion yn dilyn torri yn y dyfodol.

Part 2: Strategic Objectives

2.5 A diverse and healthy environment

Well-managed woodlands can deliver diverse outputs as well as being exemplars of sustainability. In order to achieve true sustainability, the physical and biological resources within forests, such as the water, soil, flora and fauna, must be maintained or improved.

Woodlands also provide habitats for people to enjoy and they can enhance the landscape, increasing tourism potential in rural areas. We all depend on the environment, and the health of the environment is crucial for the development of rural and urban communities. Woodland habitats cannot be considered in isolation, they are intimately connected with other land uses and the management of woodlands can have significant effects on neighbouring land and vice versa. The key objectives for delivering a diverse and healthy environment are :

- To conserve and enhance the biodiversity of our woodlands;
- To conserve and enhance the landscapes of Wales; and
- To better integrate woodlands with other countryside management.



2.5.1 To conserve and enhance the biodiversity of our woodlands

Our woodlands contain some of the most diverse plant and animal communities of any habitat. Our ancient, semi-natural woodlands are irreplaceable assets and our upland oakwoods are internationally important. More recently planted woodlands with remnant semi-natural vegetation also have high existing or potential biodiversity values. The success of this strategy will be shown if we can improve the quality of these woodlands, linking and expanding their habitat networks without compromising other valued habitats or historic features. The prospect of global climate change demands that we consider how robust our woodland habitats are, so that we concentrate our conservation efforts on habitats that will be sustainable in the long term.

- We will increase the quality of native woodlands for wildlife and implement the Biodiversity Action Plan targets for their restoration and extension, creating links between fragmented woodlands.
- We will increase the area of woodland achieving independent environmental certification to internationally recognised standards.
- We will increase the area of native woodlands, targeting extension and connection of existing woods and incorporating the concept of increasing the core area of native woodland habitats.
- We will encourage owners to incorporate different habitats, such as heath and bog, within woodlands, to maximise the connections between similar habitat types.
- We will increase the biodiversity of coniferous woodlands through the use of continuous cover-systems, developing multi-aged structures through natural regeneration and the incorporation of native species.

2.5.2 To conserve and enhance the landscapes of Wales

Trees and woodlands have a high visual impact and are key components of our most treasured landscapes. Woods also contribute to our quality of life by enhancing the surroundings of our towns cities and commercial areas. Trees and woodlands can help restore landscapes following mineral extraction and past industrial activity. The rich archaeological inheritance in woodlands, historic landscapes, parks and gardens is cherished for its contribution to our society. Landscape is, however, dynamic and constantly changing. We

- Byddwn yn defnyddio coetiroedd i adfer y tirweddau mewn ardaloedd yr effeithwyd arnynt gan fwyngloddio a gweithgareddau diwydiannol eraill yn y gorffennol.
- Byddwn yn datblygu cynlluniau gweithredu i flaenoriaethu gwaith mewn parciau hanesyddol a thirweddau ac ehangu'r wybodaeth ar nodweddion hanesyddol pwysig o fewn coetiroedd.
- Byddwn yn parhau i ailstrwythuro planhigfeydd sydd eisoes yn bodoli, gan annog perchnogion i chwilio am gyfleoedd i adfer llystyfiant naturiol, gan waredu coetiroedd lle'n briodol.

2.5.3 Integreiddio coetiroedd yn well gyda rheolaeth eraill o gefn gwlad.

Gall rheolaeth coetir gael effaith sylweddol ar gynefinoedd cyffiniol. Gall yr effeithiau hyn fod yn adeiladol lle, er enghraifft, y bydd coetiroedd yn dal ac yn cloi llygreddyddion i fyny, neu yn andwyol lle mae coetiroedd yn llochesau i anifeiliad sydd yn gweithredu fel plâu ar dir cyffiniol. Trwy ddeall y rhyngweithrediadau hyn a gweithio gydag eraill, byddwn yn ceisio mwyafu'r buddion a lleihau'r gwrthdrawiadau. Gall coetiroedd gael effaith pwysig ar amgylchedd y dŵr. Gall dyluniad a rheolaeth da o goetiroedd gyfrannu tuag at wrthdroi asideiddio afonydd, mwyhau bioamrywiaeth nentydd a dylanwadu ar lifiant dŵr lle mae coetiroedd yn arwynebedd sylweddol o fewn dalgylch.

- Byddwn yn defnyddio cynllunio rheolaeth dalgylchoedd i ddatblygu'r rhan y gall coetiroedd eu chwarae wrth reoli dŵr a lleihau'r peryglon o lifogydd.
- Byddwn yn gweithio i arbed colledion pellach o goetir hynafol a hanner naturiol, gan adeiladu ar y *Rhestriad Cenedlaethol o Goed a Choedydd* er mwyn gwella'n gwybodaeth o statws coetiroedd brodorol yng Nghymru a helpu eu diogelu.
- Byddwn yn gweithio i ddatblygu dolennau priodol rhwng coetiroedd a rheolaeth cefn gwlad ehangach trwy gyfrwng *Tir Gofal* a chynlluniau amgylcheddol eraill.
- Byddwn yn parhau i gefnogi ymchwil wyddonol i'r rhyngweithiadau rhwng coetiroedd a defnyddiau tir eraill yng nghyd-destun y cefn gwlad ehangach, i ddatblygu ein polisiau ar gyfer yr amgylchedd.


2.6 Twristiaeth, hamdden ac iechyd

Mae coed a choetiroedd yn amlwg yn y dirwedd, yn enwedig mewn rhai o rannau mwyaf prydferth Cymru, gan chwarae rhan hanfodol mewn twristiaeth. Mae coetiroedd hefyd yn rhoi strwythur i'r dirwedd a chefnidir i lawer o fentrau twristiaeth. Maent hefyd yn lleoedd i ymweld â nhw ynddynt eu hunain. Ceir mwy nag 11 o filiynau o ymweliadau â choetiroedd Cymru bob blwyddyn, ac mae'r niferoedd yn codi gyda'r cynnydd yn y galw am hamdden awyr agored.

Gall defnyddio coetiroedd am ymarfer corff a mwynhad gael effeithiau buddiol ar iechyd y genedl. Mae coetiroedd yn cyfrannu'n adeiladol tuag at iechyd emosynol a chorfforol, trwy fynediad cyhoeddus a hamdden. Dyma brif amcanion hyrwyddo twristiaeth ac iechyd:

- Defnyddio coetiroedd i helpu creu profiad o ansawdd uchel i ymwelwyr; a hefyd
- Hyrwyddo iechyd trwy fynediad i goetir i bob cymuned.

Ceir 11 o filiynau o ymweliadau â choetiroedd Cymru bob blwyddyn, ac mae'r niferoedd yn codi gyda'r cynnydd yn y galw am hamdden awyr agored.



Part 2: Strategic Objectives

must ensure that our woodlands enhance the landscape by recognising their history and by using modern design principles, when planning the future management and replacement of plantations following felling.

- We will use woodlands to restore the landscapes of areas affected by past mineral extraction and other industrial activities.
- We will develop action plans to prioritise work in historic parks and landscapes and to extend the information on important historic features within woodlands.
- We will continue the restructuring of existing plantations, encouraging owners to look for opportunities to restore natural vegetation removing woodland where appropriate.

2.5.3 To better integrate woodlands with other countryside management

Woodland management can have a significant effect on neighbouring habitats. These effects can be positive, where, for example, woodlands intercept and retain pollutants, or negative, where woodlands are the refuge for animals which act as pests on neighbouring land. By understanding these interactions and working with others, we will try to maximise the benefits and minimise conflict. Woodlands can have important effects on the water environment. Good design and management of woodlands can contribute to reversing the acidification of rivers, enhancing stream biodiversity and influencing the flow of water, where woodlands form a significant area within a catchment.

- We will use catchment management planning to develop the role that woodlands can play in the management of water and the reduction of flood risks.
- We will work to prevent further loss of ancient and semi-natural woodland, building on the *National Inventory of Trees and Woods* to improve our knowledge of the status of native woodlands in Wales and to assist in their protection.
- We will work to develop appropriate links between woodlands and wider countryside management through *Tir Gofal* and other environmental schemes.
- We will continue to support scientific research into the interactions between woodlands and other land uses in the wider countryside, to develop our policies for the environment.

2.6 Tourism, recreation and health

Trees and woodlands are prominent in the landscape, especially in some of the most beautiful parts of Wales, playing a vital role in tourism. Woodlands also provide a landscape structure and a setting for many tourist enterprises. They are also places to visit in their own right. Over 11 million visits are made to Welsh woodlands each year and, with the demand for outdoor recreation increasing, this number is rising.

The use of woodlands for exercise and enjoyment may also have beneficial effects on the health of the nation. Woodlands make a positive contribution to emotional and physical health, through public access and recreation. The key objectives for promoting tourism and health are:

- To use woodlands to help create a high-quality visitor experience; and
- To promote health through access to woodlands for all communities.

11 million visits are made to Welsh woodlands each year and, with the demand for outdoor recreation increasing, this number is rising.



Rhan 2: Amcanion Strategaeth

2.6.1 Defnyddio coetiroedd i helpu creu profiad o ansawdd uchel i ymwelwyr

Mae coed a choetiroedd yn chwarae rhan bwysig wrth greu delwedd ddeniadol o Gymru. Mae defnyddio coed fel cefndir i gyfleusterau ac adnoddau i dwristiaid yn mwyhau ansawdd profiad yr ymwelwyr. Mae lle hefyd i ddatblygu mwy o lety i dwristiaid mewn coetiroedd priodol, ac am ddefnydd uwch o goetir fel lleoliad cyfleusterau hamdden.

- Gan ddefnyddio partneriaethau sydd eisoes yn bodoli, byddwn yn hyrwyddo'r defnydd o goetiroedd er mwyn datblygu profiad o ansawdd uchel i ymwelwyr.
- Byddwn yn cefnogi datblygiad crefftiau sydd yn defnyddio pren fel rhan o brofiad yr ymwelwyr, yn ogystal â chynnig cynhyrchion i'r diwydiant twristiaeth.
- Byddwn yn annog y defnydd o goetir fel rhan o gyddestun datblygiadau twristiaeth.
- Byddwn yn hyrwyddo datblygiad hamdden arbenigol mewn coetiroedd, gan gynnwys gwyllo bywyd gwylt a gweithgareddau arlunol yn ogystal â chwaraeon mwy swnllyd a chorfforol mewn mannau a ddynodir yn briodol.
- Byddwn yn gweithio gyda'r Bwrdd Croeso a'r awdurdodau lleol i adnabod lleoedd addas am ddatblygu llety gwyliau coedwig ac i gefnogi datblygiad economi wledig.

2.6.2 Hyrwyddo iechyd trwy fynediad i goetir i bob cymuned.

Gall coetiroedd chwarae rhan wrth gynnal lles corfforol ac emosiynol unigolion a chymunedau. Mae defnyddio coetiroedd er mwynhad tawel yn ogystal ar gyfer chwaraeon a hamdden yn ffordd effeithiol o gadw'n heini ac yn iach. Gall cerdded mewn coetiroedd fod yn effeithiol wrth adfer ar ôl salwch.

Mae datblygu llwybrau beicio mynydd yng nghoetiroedd y Cynulliad Cenedlaethol yng Nghoed-y-Brenin wedi creu cyfleusterau awyr agored a gydnabyddir yn rhyngwladol sydd yn dod ag amcangyfrif o £5 miliwn y flwyddyn i mewn i'r economi lleol.

Mae'n bosibl y bydd mynediad i goetiroedd am ymarfer corff a mwynhad yn cael effeithiau buddiol ar iechyd y genedl. Mae hyrwyddo mynediad i goetiroedd fel rhan o fynediad ehangach i gefn gwlad yn bwysig hefyd, a bydd coetiroedd y Cynulliad Cenedlaethol yn parhau i chwarae rhan wrth ddiwallu'r galw am adnoddau hamdden i'r cyhoedd. Ond anogir perchnogion coetir eraill hefyd i ddarparu mynediad gwirfoddol i'r cyhoedd mewn ffordd gydlynol. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol ymrwymiad i ymestyn mynediad gan y cyhoedd a bydd yn monitro'n agos effeithiolrwydd darpariaethau *Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000* a ddaeth i mewn yn ddiweddar.

- Byddwn yn ymestyn mynediad i goetiroedd, yn enwedig i gymunedau difreintiedig, gan ddefnyddio dyluniadau da a chyfranogiad cymunedol, er mwyn helpu trechu syniadau rhai pobl o berygl pan yn defnyddio coetiroedd ar yr ymylon trefol.
- Byddwn yn cefnogi ymchwil i ddod o hyd i well ddealltwriaeth o fuddion coed a choetiroedd i iechyd.
- Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio coed a choetiroedd mewn lleoliadau trefol er mwyn mwyafu lles emosiynol a chorfforol.
- Byddwn yn parhau i annog ymwelwyr i holl goetiroedd y Cynulliad Cenedlaethol, gan hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael yn egniol.



Part 2: Strategic Objectives

2.6.1 To use woodlands to help create a high-quality visitor experience

Trees and woodlands play an important role in creating an attractive image of Wales. The use of trees as a setting for tourist facilities enhances the quality of the visitors' experience. There is also scope for the development of more tourist accommodation in appropriate woodlands, and the greater use of woodland for siting recreational facilities.

- Using existing partnerships, we will promote the use of woodlands to develop a high-quality visitor experience
- We will support the development of wood-using crafts as part of the visitor experience, as well as supplying products to the tourism industry.
- We will encourage the use of woodland as part of the setting for tourist developments.
- We will promote the development of specialist recreation in woodlands, including wildlife observation and artistic pursuits, as well as more noisy and physical sports in appropriately zoned areas.
- We will work with the Wales Tourist Board and local authorities to identify suitable sites to develop forest-based holiday accommodation and to support rural economic development.

2.6.2 To promote health through access to woodlands for all communities

Woodlands can play a role in supporting the physical and emotional wellbeing of individuals and communities. The use of woodlands for quiet enjoyment as well as for sport and recreation is an effective way of keeping fit and healthy. Walking in woodlands can also be an effective way of regaining health after illness.

The development of the mountain bike trails in the National Assembly woodlands at Coed y Brenin has created an internationally recognised outdoor recreation facility, and brings an estimated £5 million a year into the local community.

Access to woodlands for exercise and enjoyment may also have beneficial effects on the health of the nation. Promoting access to woodlands as part of the wider access to the countryside is also important and the National Assembly woodlands will continue to play a part in satisfying the demand for public recreational facilities. Other woodland owners will also be encouraged to provide voluntary public access in a co-ordinated way. The National Assembly is committed to extending public access and will be closely monitoring the effectiveness of the provisions in the recent *Countryside and Rights of Way Act 2000*.

- We will extend access to woodland, particularly for disadvantaged communities, using good design and community involvement, to help overcome some people's perceptions of risk when using woodlands on the urban fringes.
- We will support research to seek better understanding of the health benefits of trees and woodlands
- We will look for opportunities to use trees and woodlands in urban settings to maximise emotional and physical well being.
- We will continue to encourage visitors to all the National Assembly's woodlands, actively promoting the opportunities available.



Rhan 3: Gweithredu'r Strategaeth

Un o orchwylion cyntaf y Fforwm Coetiroedd fydd sefydlu dangosyddion perfformiad y gall partneriaid eu defnyddio i wirio eu gweithgarwch. Gwneir ymdrechion i ganolbwyntio ar weithredu rhaglenni, yn hytrach nag ar ailadrodd y broses o ddatblygu strategaeth, ond bwriedir cynnal adolygiadau cyhoeddus achlysurol er mwyn ymateb i ddisgwyliadau pobl.

3.1 Gweithredoedd a cherrig milltir

Mae'r rhan hon yn edrych ymlaen at weithrediad y strategaeth. Mae pob un o'r amcanion strategol yn Rhan 2 yn gam rhagbaratoadol pwysig sydd yn gosod y cyfeiriad am y rhaglenni gweithredu. Bydd angen ystod o ganlyniadau ar wahân ar gyfer pob rhaglen y mae angen targedau mynegyddol ar eu cyfer sydd â disgrifiad clir ac yn fesuradwy. Un o orchwylion cyntaf y Fforwm Coetir fydd galw grŵp at ei gilydd i ddatblygu

mynegyddion perfformiad i'r partneriaid eraill gyflwyno adroddiadau rheolaidd yn eu herbyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn sicrhau bod pob rhan o'r strategaeth yn cael ei harolygu a diweddarau'n rheolaidd.

Mae'r tabl isod yn gosod allan mynegyddion drafft rhagbaratoadol ac yn rhestru partneriaid allweddol posibl a fydd yn atebol i'r Fforwm Coetir am gasglu a chrynhai'r ystadegau ar gyfer pob Rhaglen Gweithredu gyfan neu ran ohoni.

| Rhaglen Gweithredu | Partneriaid arweiniol posibl | Mynegyddion Drafft posibl |
|---|--|---|
| Coetiroedd i Bobl | Comisiwn Coedwigaeth, Awdurdodau Lleol a Chyrff Anllywodraethol | Nifer o grwpiau cymunedol yn ymwneud â rheolaeth coetir. |
| Mwy a gwell goetiroedd | Comisiwn Coedwigaeth, Diwydiant a Chyrff Anllywodraethol | Cyfanswm arwynebedd coetir. Chyfanswm coetir â chynllun rheoli cymeradwyedig. Cyfanswm coetir ag ardystiad annibynnol |
| Cymru fel lleolaid am ddiwydiannau coedwig o ansawdd byd-eang | Awdurdod Datblygu Cymru, Adran Amaethyddiaeth y Cynulliad Cenedlaethol, Comisiwn Coedwigaeth a Diwydiant | Cyfaint y pren a gynaeafwyd a phroseswyd. Nifer o bobl a gyflogir. Iechyd busnes |
| Amgylchedd iach ac amrywiol | Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Cyrff Anllywodraeth, Comisiwn Coedwigaeth, Adran yr Amgylchedd, Cadw | Arwynebedd coetir brodorol mewn cyflwr boddhaol. Cyraedd targedu Cynllun Gweithredu ar Fio-amrywiaeth. Sgôr am gyflwr afonydd a threftadaeth ddiwylliannol. |
| Twristiaeth, hamdden ac iechyd | Bwrdd Croeso Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru Awdurdodau Lleol, Cadw, Comisiwn Coedwigaeth, Menter Coedwigaeth | Nifer o ymweliadau â choetir. Nifer o fusnesau twristiaeth yn defnyddio delweddau coetir mewn hysbysebion. Mynegydd cyfraniad tuag at economi twristaidd i ddatblygu. Mynegydd cyfraniad tuag at iechyd trwy ofal rhagataliol i'w datblygu. |

Part 3: Implementing the Strategy

One of the first tasks for the Woodland Forum will be to develop performance indicators against which partners can report. Efforts will be concentrated on the delivery of programmes, rather than on needlessly repeating the process of strategy development, but there will be periodic public reviews to respond to people's expectations.

3.1 Actions and milestones

This part looks forward to the implementation of the strategy. Each of the strategic objectives in Part 2 is an important precursor, setting the direction for the programmes for action. Each programme will require a separate range of outputs, which require indicator targets, which must be clearly described and measurable. One of the first tasks for the Woodland Forum will be to convene a group to develop

performance indicators, against which partners can report regularly. The National Assembly will ensure that all parts of the strategy are regularly reviewed and updated.

The table below sets out preliminary draft indicators and lists possible key partners who will be responsible to the Woodland Forum for collection and collation of the statistics for the whole or part of each 'Programme for Action'.

| Programme for Action | Possible lead partners | Preliminary draft Indicator |
|---|--------------------------------------|---|
| Woodlands for People | FC, LA's, NGO's | Number of communities involved in woodland management |
| More and better woodlands | FC Industry NGO's | Total area of woodland. Area of woodland in approved management scheme. Area of woodland with independent certification |
| Wales as a location for World-class forest industries | WDA, NAWAD, FC Industry | Volume of timber harvested and processed. Number of people employed. Business health |
| A healthy and diverse environment | CCW, NGO's, FC, EA, Cadw, Coed Cymru | Area of native woodland in satisfactory condition. Achievement of Biodiversity Action Plan targets. Condition score for rivers and cultural heritage |
| Tourism, recreation and health | WTB, CCW, LA's, Cadw, FC, FE | Number of visits to woodland. Contribution to tourism economy indicator to be developed. Contribution to health through preventative care to be developed |

Gweithredu'r Strategaeth

Bydd datblygu mynegyddion sydd yn hawdd eu mesur, sydd yn rhoi cofnod da o gynnydd yn erbyn amcan ac sydd yn bosibl i'r fforwm cyfan gytuno arnynt yn orchwyl anodd. Mewn nifer o feysydd mae ystadegau sydd wedi'u casglu eisoes yn erbyn protocoliau cytunedig y gellir eu defnyddio (megis asesiadau iechyd busnes). Mewn meysydd eraill, bydd angen ystyried camau hollol newydd, ac mae'n bosibl y bydd rhaid mabwysiadu dulliau dirprwyol sydd yn integreiddio'r cynnydd ar draws cyfres o weithredoedd. Yn nodweddiadol, defnyddir llwyddiant rhai poblogaethau o adar fel mesur integreiddiol o iechyd amgylcheddol mewn cynefinoedd penodol.

Mae angen ystyriaeth ofalus o'r gorchwyl hwn fel y bydd modd defnyddio'r un ystadegau am fonitro hir-gyfnod. Er bod coedwigaeth yn ddefnydd tir hir-gyfnod, mae wedi dioddef yn y gorffennol gan ddiffyg cysondeb mewn rhagddisgrifiadau mesur. Yn aml yn y gorffennol, ni fu'n bosibl cymharu data arolwg o'r naill gyfnod â'r llall gan fod yr hyn a fesurwyd, neu'r ffordd a ddefnyddiwyd i'w mesur, wedi newid yn sylweddol.

Bydd gan bob prif raglen am weithredu fynegydd strategol cryno unigol. Gall y mynegyddion cryno hyn fod yn gyfuniad o nifer o is-fynegyddion ar gyfer gweithredoedd unigol, neu gallant fod yn fynegydd dirprwyol o gyflwr yr holl gyfres o weithredoedd.

Mae maint, cyfansoddiad a chyflwr y coetir, cymuned neu gynnyrch yn debygol o fod yn fynegyddion mesur allweddol. Dylai'r mynegyddion hyn fod yn gydnaws â'r mynegyddion a ddewiswyd i fesur Cynllun Datblygiad Cynaliadwy Cymru cyn belled â phosibl, ac am fesuriad yn erbyn Safon Goedwigaeth y DU. Lle'n bosibl, dylai mynegyddion fod â'r un nodweddion mesuradwy a gesglir eisoes at ryw ddiben arall.

Disgwylir i bob corff partnerol yn y Fforwm Coetir osod eu hymrwymadau eu hunain allan mewn cynllun gweithredu yn erbyn un neu fwy o'r rhaglenni am weithredu. Bydd y Fforwm Coetir hefyd yn monitro'r ystod o weithredoedd a argymhellir ac yn adrodd yn ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol ar unrhyw fylchau strategol, ac ar gynnydd tuag at y cerrig milltir ar gyfer y prif amcanion gan sicrhau cyflwyniad integreiddiedig ar draws yr holl raglenni.

3.2 Gwerthuso ac Arolygu

Er y disgwylir i'r weledigaeth a osodir allan yn y strategaeth hon barhau ym mhell i'r dyfodol, bydd y rhaglenni gweithredu'n newid wrth i waith gael ei gwblhau, ac wrth i ddylanwadau allanol newid y blaenoriaethau. Adeiladwyd proses o adborth yn y strategaeth o'r cychwyn fel y bydd y strategaeth yn aros yn berthnasol ond heb yr angen am newid cyson. Dylid canolbwyntio ymdrechion ar gyflawni rhaglenni yn hytrach nag ar ail-adroddiad di-angen o'r broses o ddatblygiad strategol, ond cynhelir arolygon cyhoeddus cyfnodol er mwyn ymateb i destunau diddordeb a disgwyliadau pobl Cymru.

Disgwylir i bob corff partnerol yn y Fforwm Coetir osod eu hymrwymadau eu hunain allan mewn cynllun gweithredu.



Implementing the Strategy

Developing indicators that are easily measurable, which give a good record of progress against an objective, and can be agreed by the whole forum will be a difficult task. In some areas, there are statistics already collected to agreed protocols which can be used (such as business health scores). In other areas, entirely new measures will need to be considered, and surrogate measures may need to be adopted which integrate the progress across a series of actions. Typically, the success of some bird populations is used as an integrated measure of environmental health in some habitats.

This task needs to be carefully considered so that the same statistics can be used for long-term monitoring. Forestry, though a long-term land use, has suffered through lack of continuity of measurement protocols. Often in the past, survey data from one period cannot be compared with another because what is measured, or the way of measuring it has changed significantly.

Each main programme for action will have a single headline strategic indicator. These headline indicators may be a composite of several sub indicators for individual actions, or be a surrogate indicator of the condition of the whole set of actions.

The extent, composition and condition of the woodland, community or product are likely to be key measurements. The indicators must, as far as possible, be compatible with those chosen to measure the Wales Sustainable Development Scheme, and for measurement against the UK Forestry Standard. Where possible, indicators should be measurable characteristics, which are already collected for some other purpose.

Each partner organisation in the Woodland Forum will be expected to set out their own commitments in an action plan against one or more of the programmes for action. The Woodland Forum will also monitor the range of actions proposed and report to the National Assembly on progress towards milestone markers for the key objectives, ensuring that there is integrated delivery across all of the programmes.

3.2 Evaluation and Review

While the vision set out in this strategy is expected to endure well into the future, the programmes of action will change as work is completed, and as external influences change the priorities. A feedback process has been built into the strategy from the outset so that the strategy remains relevant, but should not need constant change. Efforts should be concentrated on the delivery of programmes rather than on needlessly repeating the process of strategy development, but there will be periodic public review to respond to people's concerns and expectations.

Each partner organisation in the Woodland Forum will be expected to set out their own commitments in an action plan.



Photo:CCW

Rhan 4: Esboniad a Thystiolaeth

Mae'r rhan hon yn rhoi'r cefndir i ddatblygiad y strategaeth, paham yr ystyrir yn angenrheidiol a sut yr ymgynghorwyd â bobl ynglŷn â'r cynnwys

Deall y cyd-destun: hanes coetiroedd yng Nghymru.

Cyn-hanes coetiroedd Cymru

Mae newidiadau yn yr hinsawdd a datblygiad adnoddau naturiol gan ddynol ryw wedi arwain at anwadaliadau ym maint a natur coetiroedd Cymru. Ar anterth y rhewlifant diwethaf, rhyw 18,000 o flynyddoedd yn ôl, gorweddai bron y cyfan o dir Cymru o dan haenen drwchus o iâ, gyda lefel y môr tua 100 metr yn is na un heddiw, gydag ymyl y tir yn bell allan i mewn i'r môr presennol. Tua 14,000 o flynyddoedd yn ôl, dechreuodd yr hinsawdd wella, yr haenen o iâ yn ymdoddi a lefel y môr yn codi. Roedd y tir yn agored ac yn foel, yn debyg i dyndra'r arctig. Y rhywogaethau coetiroedd cyntaf i ymledu dros y glaswelltiroedd llwm hyn oedd ffawydd a meryw. Erbyn 9,000 o flynyddoedd yn ôl, roedd yr amgylchiadau'n dechrau addfwyno. Cyll oedd yn cymryd lle'r merwyn, gyda choetiroedd derw a llwyfen yn datblygu yn Ne Cymru, a choetiroedd cymysg o bedw, pinwydd a derw ar yr ucheldir. Wrth i'r tywydd wella, ymledodd ynn a palalwyf i Gymru o'r dwyrain a dechreuodd gwern dyfu o gwmpas y tiroedd gwlybion. Symudodd ffin y coed yn raddol i fyny'r llethrau. Erbyn 6,000 o flynyddoedd yn ôl, roedd yr hinsawdd yn well na hinsawdd heddiw. I raddau helaeth gorweddai'r tir o dan orchudd o goetiroedd aeddfed o goed llydandail cymysg, y Wig, gyda rhywfaint o binwydd yn dal i dyfu ar y brynau. Roedd y prif droedd agored yn nyffrynnoedd yr afonydd, ar yr arfordir, y rhostiroedd a'r mynyddoedd lle y helodd a chasglodd pobl fesolithig Cymru eu bwyd.

O hynny ymlaen, daeth dylanwad dyn ar y coetiroedd yr un mor bwysig â newidiadau i'r hinsawdd. Daeth pobl neolithig, yr amaethwyr cyntaf, i Gymru tua 5,500 o flynyddoedd yn ôl, yn clirio coed o'r caeau ar y priddoedd ysgafnach. Arweiniodd cyrhaeddiad bwyeill efydd a chynnydd yn y boblogaeth tua 4,000 o flynyddoedd yn ôl at gyflymiad wrth glirio'r coetiroedd ac erydiad sylweddol o bridd. Ehangodd aneddau i mewn i'r tiroedd uchel. Torrwyd y coed ac arweiniodd amaethu cyfnod byr at ddirywiad o'r priddoedd, gan symblu tyfiant y mawn a welir bellach fel rhan nodweddiadol o'r ardaloedd hyn. Dechreuodd nifer o rywogaethau o goed megis palalwyf, llwyfen a phinwydd ddirywio'n ddifrifol.

O dua 3,000 o flynyddoedd yn ôl, cafwyd dirywiad yn yr hinsawdd, tymereddau is a glawiad uwch. Ar ddechrau Oes yr Haearn roedd yr aneddfeydd ar lawer o ucheldir Cymru wedi'u gadael a dwyshawyd amaethyddiaeth ar dir is gyda chynnydd mewn clirio coetir a thrin priddoedd clai trymach. Erbyn y 4ydd Ganrif OC, roedd poblogaeth y Gymru Rhufeinig yr un mor uchel ag y byddai yn union cyn y Pla Du yn y 14eg Ganrif a hefyd ar ddiwedd cyfnod y Tuduriaid. Mae'n bosibl yr oedd patrwm y tir amaeth, pori a choedwig yn debyg yn fras i'r hyn a welir heddiw. Roedd coetir a chynnyrch y coetir wedi dod yn adnoddau gwerthfawr a oedd angen rheolaeth ofalus yn hytrach na ddatblygiad pellach.

Rheolaeth coetir traddodiadol

Er gwaetha'r amrywiadau mewn hinsawdd, poblogaeth a dulliau amaethyddol, buasai maint y gorchudd o goetir yng Nghymru yn gyson am gyfnod o sawl canrif hyd at ddechrau'r 19eg Ganrif. Datblygodd dulliau nodweddiadol i

Part 4: Explanation and Evidence

This part sets out the background to the development of the strategy, why it is considered necessary and how people have been consulted on its contents

Understanding the context: the history of woodlands in Wales.

The Prehistory of Welsh Woodlands

Changes in climate and man's exploitation of natural resources, have led to dramatic fluctuations in the extent and nature of woodlands in Wales. At the height of the last glaciation, some 18,000 years ago, nearly all of Wales was under a thick sheet of ice, the sea-level was about 100m lower than today and the edge of the land was far out into the modern sea. About 14,000 years ago, the climate began to improve, the ice sheet began to melt and sea-level rose. The land was open and barren, like arctic tundra. Birch trees and juniper bushes were the first woodland species to colonise these bleak grasslands. By 9,000 years ago, conditions were becoming milder. Hazel trees were taking over from the juniper bushes, and oak and elm woodlands developed in south Wales, mixed birch, pine and oak woods in the upland areas. As the weather improved, ash and lime trees colonised Wales from the east and alder began to grow around wetlands. The tree-line moved steadily up the mountain slopes. By 6,000 years ago, the climate was better than it is today. The landscape was largely blanketed with mature, mixed broad-leafed woodlands, the 'Wildwood', with some pine still growing on the hilltops. River valleys, the coastal fringe, heaths and mountain areas provided the main areas of open land, where the Mesolithic people of Wales hunted for and gathered their food.

From this time on, man's influence on the woodlands was to become as important as changes in the climate.

Neolithic people, the first farmers, came to Wales about 5,500 years ago, clearing fields from woods on lighter soils. The arrival of bronze axes about 4,000 years ago and the increase in population led to faster woodland clearance and significant soil erosion. Settlement expanded into upland areas. Trees were felled and short-term cultivation led to the breakdown of the soil, and initiated the growth of peat, now seen as typical of these areas. Some tree species such as lime, elm and pine went into serious decline.

From about 3,000 years ago, there was a deterioration in climate, lower temperatures and higher rainfall. At the beginning of the Iron Age, settlement had been abandoned in much of upland Wales, and agriculture was intensified at lower altitudes, with increased woodland clearance and the cultivation of heavier clay soils. By the 4th century AD, the population of Roman Wales was as high as it would be just before the Black Death in the 14th century, and again, at the end of the Tudor period. The pattern of cultivated, pastoral and forested land may have been broadly similar to what can be seen today. Woodland and woodland products had become a valuable resource requiring careful management not further exploitation.

Traditional Woodland Management

Despite variations in climate, population and agricultural practice, the extent of woodland cover in Wales for several hundred years up to the beginning of the 19th century would have been fairly constant. Distinctive practices emerged so that woodland was managed as carefully as any other agricultural resource. Coppicing involved felling broad-leafed trees down to their boles, and then harvesting the regenerating shoots in rotation. Species and ages of wood were selected for specific purposes, basketry,

Rhan 4: Esboniad a Thystiolaeth

reoli coetir yr un mor ofalus ag unrhyw adnoddau amaethyddol eraill. Roedd torri coed copi yn golygu torri coed llydandail i lawr i'w bonion ac yna cynaeafu'r blaguron a atgynhyrchodd mewn cylchrediad. Dewiswyd rhywogaethau ac oedrannau penodol o goed at ddibenion penodol: gwneud basgedi, clwydi, golosg, coed tân, coesau offer, dodrefn ac yn y blaen. Mewn coedydd copi cadwyd nifer o goed i dyfu i aeddfedrwydd, gan docio'r blaguron ar yr ochrau i roi boncyffion syth, hir. Roedd y coed 'hirgyff' hyn yn werthfawr iawn a defnyddiwyd nhw i adeiladu tai, llongau, pontydd ac adeiladau pwysig. Byddai'r brenin neu arglwyddi mawr yn eu rhoi yn anrhegion i'w hoff ddeiliaid. Roedd barbro neu docio'n gyffredin hefyd, lle y torrwyd coed uwchben lefel y pen (gwelir hyn gyda helyg hyd heddiw) fel y byddai modd i anifeiliad bori ar y glaswellt o dan y coed ac felly cael dau gnwd o'r un darn o dir.

Yn y flwyddyn 930, soniodd cyfraith Hywel Dda am werth coed, a chanmolwyd Gruffudd ap Cynan (bu farw 1137), Tywysog Gwynedd, am blannu coedydd. Crëwyd parciau gan lawer o arglwyddi grymus a mynachlogydd yn ystod y Canol Oesoedd gyda muriau neu balisau a ffosydd i'w hamddiffyn. Byddai rhai o'r parciau hyn gymaint â 2,000 o erwau (800ha) mewn maint ac yno llawn gymaint i ddiogelu'r coed â chadw'r helfilod i mewn. Datblygodd llawer o'r parciau hyn yn barciau tirwedddeg y 18fed Ganrif. Roedd coedwigoedd y Canol Oesoedd yn fwy byth, er enghraifft roedd Fforest Fawr Brycheiniog cymaint â 40,000 o erwau (16,000ha) o faint. Nid oedd y rhain i gyd o dan orchudd o goed, ond yn hytrach gwarchodfeydd hela'r brenin gyda deddfau coedwig arbennig.

Cynoddodd y pwysau ar goetiroedd o ddiwedd yr Oesoedd Canol ymlaen i gael mwy o bren am adeiladu a golosg am ddiwydiannau newydd megis cynhyrchu haearn a thoddi plwm a chopor. Ond er gwaethaf y cynnydd hwn yn y galw, parhaodd arferion coedwraeth i gadw'r cyflenwad i fyny, ar wahân i ddarparu coed 'hirgyff'. O'r 17eg Ganrif ymlaen, gyda chynnydd yn y diddordeb mewn garddio a gwelliannau amaethyddol, daethpwyd â rhywogaethau newydd i mewn, gan gynnwys dau fath o gastanwydd, sycamorwydd ac amrywiaeth o gonifferau, ac anogwyd dulliau coedwraeth newydd. Er enghraifft, roedd Thomas Johnes wedi plannu miliynau o goed erbyn diwedd y 18fed ganrif ar ei ystâd yn yr Hafod yng Nghanolbarth Cymru, gan gynnwys cellioedd helaeth o Larwydd Ewropeaidd. Yn ystod y 19eg Ganrif, daeth casglwyr planhigion yn ôl â rhywogaethau newydd o gonifferau, gan gynnwys Ffynidwydd Douglas a Chochwydd California sydd bellach mor nodweddiadol o dirwedd y Gororau. Ond roedd y cynnydd dramatig yn y galw gan y diwydiannau glo, haearn ac eraill yng Nghymru erbyn diwedd y 19eg Ganrif

yn drech o lawer na'r cyflenwad lleol, a daeth porthladdoedd De Cymru'n fannau mewnforio pwysig o bren. Dyma'r pwysau a roddodd derfyn ar y dulliau rheoli coetir traddodiadol a oedd wedi parhau am 2000 o flynyddoedd bron.

Hanes yr ugeinfed ganrif

